

Gallwch weld y fersiwn diweddaraf o'r arweiniad hwn ar ein gwefan, sef www.gmc-uk.org/guidance.

Taflen ffeithiau: Deddfwriaeth a chyfraith achosion allweddol sy'n ymwneud â Gwneud penderfyniadau a chaniatâd

Am y daflen ffeithiau hon

Mae'r daflen ffeithiau hon yn nodi rhywfaint o'r ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion allweddol sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau meddygol a chaniatâd yn y DU. Nid ei diben yw cynnig rhestr gynhwysfawr, ac nid ydw'n cymryd lle y cyngor cyfreithiol annibynnol diweddaraf.

Disgwyliwn i feddygon fod yn ymwybodol o'n harweiniad diweddaraf a'r gyfraith, a'u dilyn.

Deddfwriaeth

Cymru a Lloegr

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae'r Ddeddf hon yn darparu fframwaith cyfreithiol er mwyn gwneud penderfyniadau ar ran pobl 16 oed neu'n hŷn heb alluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae'n egluro:

- y sawl sy'n gallu gwneud penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau am ofal a thriniaeth feddygol, ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu penderfynu drostynt eu hunain
- sut y dylid gwneud y penderfyniadau hynny.

Rhaid i feddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill droi at [God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol](#), sy'n esbonio sut y dylai'r Ddeddf weithio o ddydd i ddydd, ac mae'n nodi'r camau y dylai'r rhai sy'n ei defnyddio ac yn ei dehongli eu dilyn wrth:

- asesu galluedd rhywun
- dod i benderfyniad sydd er budd pennaf unigolyn heb alluedd.

Dolenni a lawrlwythiadau

- [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#)
- [Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol](#)
- [Pecyn cymorth BMA ynghylch Galluedd meddyliol](#)

Deddf Iechyd Meddwl 1983

Mae'r Ddeddf hon yn darparu fframwaith cyfreithiol, sy'n nodi pryd y gellir mynnu bod cleifion yn cael eu trin am anhwylder meddyliol heb sicrhau eu caniatâd, er mwyn eu diogelu nhw neu eraill rhag niwed. Mae'n nodi hawliau cleifion hefyd i herio'r defnydd o bwerau gorfodol trwy gyfrwng y Tribiwnlys Iechyd Meddwl.

Dolenni a lawrlwythiadau

- [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#)
- [Canllaw cyfeirio Deddf Iechyd Meddwl 1983](#)
- [Deddf Iechyd Meddwl 1983 \(gan gynnwys fersiwn hawdd i'w ddarllen\)](#)

Yr Alban

Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ffyrdd o helpu i ddiogelu lles pobl 16 oed a throsodd heb alluedd i wneud rhai penderfyniadau neu'r holl benderfyniadau drostynt eu hunain oherwydd anhwylder meddyliol neu'r ffaith nad ydynt yn gallu cyfathrebu. Mae'n caniatáu i bobl arall wneud penderfyniadau ar eu rhan hefyd.

Mae'r Ddeddf yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid eu gweithredu wrth wneud penderfyniadau am anghenion oedolion heb alluedd, gan gynnwys mewn perthynas â gofal iechyd.

Cynorthwyr y Ddeddf gan Godau Ymarfer, sy'n nodi canllawiau ar gyfer y rhai sy'n gweithredu dan y ddeddfwriaeth, gan gynnwys meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n trin oedolion heb alluedd. Mae Rhan 5 y cod ymarfer yn ymwneud â phenderfyniadau am ymchwil a thriniaeth feddygol.

Dolenni a lawrlwythiadau

- [Adults with Incapacity \(Scotland\) Act 2000](#)
- [Gwefan Llywodraeth yr Alban am y Ddeddf, gan gynnwys cod ymarfer i ymarferwyr meddygol](#)
- [Consent to Treatment: A Guide for Mental Health Practitioners – Comisiwn Lles Meddyliol](#)

Mental Health (Care and Treatment) (Scotland) Act 2003

Mae'r Ddeddf hon yn nodi'r amgylchiadau pryd y gellir mynnu bod pobl sydd ag anhwylderau meddyliol yn cael eu trin am eu anhwylder meddyliol heb sicrhau eu caniatâd. Mae'r Ddeddf yn gweithredu hawliau a rhagofalon i gleifion hefyd (gan gynnwys Tribiwnlys Iechyd Meddwl a'r hawl i fanteisio ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol). Mae'n cynnwys mesurau am unigolyn a enwir a datganiadau ymlaen llaw hefyd, er mwyn sicrhau hawliau defnyddwyr gwasanaethau ac er mwyn hyrwyddo'u cyswllt gyda thriniaeth.

Dolenni a lawrlwythiadau

- [Mental Health \(Care and Treatment\) \(Scotland\) Act 2003](#)
- Gwefan Llywodraeth yr Alban: [Prif ddarpariaethau Mental Health Scotland Act 2015](#)

Gogledd Iwerddon

Caiff penderfyniadau ynghylch galluedd a thriniaeth a gofal pan fydd pobl heb alluedd eu hystyried trwy gyfeirio at y gyfraith gyffredin yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

Mental Capacity Act (NI) 2016

Nid yw Mental Capacity Act (Northern Ireland) 2016 wedi dod i rym yn llawn eto. Pan fydd mewn grym, bydd y Ddeddf yn darparu un fframwaith cyfreithiol ar gyfer materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a galluedd. Bydd yn nodi'r egwyddorion er mwyn gwneud penderfyniadau ar ran pobl 16 oed neu'n hŷn heb alluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gan gynnwys y rhagofalon y mae'n rhaid iddynt fod mewn grym.

Mental Health (Northern Ireland) Order 1986

Ar hyn o bryd, mae Mental Health (Northern Ireland) Order 1986 ('MHO') ym cynnwys asesu, trin a hawliau pobl sydd ag anhwylder iechyd meddwl yng Ngogledd Iwerddon. Pan fydd Mental Capacity Act (NI) 2016 wedi dod i rym yn llawn, caiff MHO ei diddymu mewn perthynas ag unrhyw un dros 16 oed.

Dolenni a lawrlwythiadau

- [Mental Capacity Act \(NI\) 2016](#)
- [Tudalen yr Adran Iechyd \(Gogledd Iwerddon\) am y Ddeddf](#), sy'n cysylltu â'r codau ymarfer hefyd

Crynodebau o Gyfraith Achosion

Er nad yw rhai o'r achosion a ddyfynnir yn rhwymol ym mhob awdurdodaeth yn y DU, maent yn cynnig canllaw i lysoedd ar draws y DU. Mae gan achosion a glywir dan gyfraith Lloegr awdurdod perswadiol yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, ac fe'u dilynir gan y llysoedd yn gyffredinol.

Montgomery v Bwrdd Iechyd Lanarkshire [2015] UKSC 11

Y ddyletswydd i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o unrhyw risgiau o bwys sy'n gysylltiedig â thriniaeth ac unrhyw ddewisiadau rhesymol ynghylch triniaeth amgen

Dywedwyd wrth Mrs Montgomery, menyw yr oedd ganddi ddiabetes, ei bod yn cael baban a oedd yn fwy o faint na'r hyn sy'n arferol. Mynegodd bryderon trwy gydol ei gofal cynenedigol y gallai hyn arwain at anawsterau wrth roi genedigaeth. Ni ddywedodd ei meddyg ymgynghorol wrthi am y risg na fyddai ysgwyddau ei baban yn gallu symud trwy'r pelfis wrth roi genedigaeth (dystocia yr ysgwyddau) ac ni thrafododd y dewis o gael toriad cesaraidd. Roedd y meddyg ymgynghorol wedi penderfynu peidio rhoi'r wybodaeth hon oherwydd ei bod yn barnu bod y risg canlyniadol y byddai'r baban yn dioddef anaf difrifol yn fach iawn.

Wrth roi genedigaeth, roedd dystocia yr ysgwyddau wedi digwydd, ac effeithiwyd ar lif y gwaed trwy'r llinyn bogail. Ar ôl cael ei eni, rhoddwyd diagnosis o barlys yr ymennydd i'r plentyn, a achoswyd gan ddiffyg ocsigen. Roedd wedi dioddef anaf plecsws breichiol hefyd.

Barnodd y Goruchaf Lys fel a ganlyn.

- Mae gan oedolyn sy'n meddu ar alluedd yr hawl i benderfynu pa un, os o gwbl, o'r triniaethau sydd ar gael i'w cael.
- Mae ddyletswydd ar feddygon i gymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y claf yn ymwybodol o unrhyw risgiau perthnasol sy'n gysylltiedig ag unrhyw driniaeth a argymhellir, ac o unrhyw driniaethau amgen neu wahanol rhesymol.
- Y prawf ynghylch perthnasedd oedd, dan yr amgylchiadau, a fyddai unigolyn rhesymol yn sefyllfa'r claf yn debygol o ystyried bod y risg yn arwyddocaol, neu a oedd y meddyg neu a ddylai y meddyg fod wedi bod yn ymwybodol yn rhesymol o'r ffaith ei bod yn debygol y byddai'r claf penodol yn penderfynu ei fod yn arwyddocaol.
- Mae rôl cynghori meddyg yn cynnwys sicrhau bod y claf yn deall difrifoldeb eu cyflwr, ynghyd â manteision a risgiau disgwylidig y driniaeth arfaethedig ac unrhyw ddewisiadau amgen, fel y gallant wneud penderfyniad gwybodus.
- Mae gan feddygon yr hawl i beidio rhoi gwybod i glaf am risg os bydd yn rhesymol iddynt farnu y byddai ei datgelu yn peri niwed difrifol i iechyd y claf. Ceir eithriad cyfyngedig ac ni ddylai meddygon beidio rhoi gwybodaeth oherwydd eu bod o'r farn y gallai beri i'r claf ddewis triniaeth nad yw er budd pennaf y claf ym marn y meddyg.

Thefaut v Johnston [2017] EWHC 497 (QB)

Y ddyletswydd i roi gwybodaeth fanwl i gleifion ac amser a lle digonol i wneud penderfyniadau

Roedd Mrs Thefaut yn dioddef poen difrifol yn ei chefn, a phoen a diffyg teimlad yn ei choes. Trafododd ddewisiadau gyda'i llawfeddyg. Roedd hyn yn cynnwys cael gwybod y byddai hi'n gwella cyn pen 12 mis heb lawdriniaeth. Cafodd lythyr hefyd a oedd yn argymhell llawdriniaeth, gan nodi bod siawns o 90% y byddai'r lawdriniaeth yn delio â'r boen yn y goes, gan awgrymu bod 'pob siawns' y byddai'r boen yn ei chefn yn setlo hefyd. Nid oedd y llythyr yn sôn am y canlynol.

- Y dewis o beidio cynnal y lawdriniaeth a'r amserlen debygol er mwyn gwella heb lawdriniaeth.
- Y risg cysylltiedig y gallai'r weithdrefn waethygu ei chyflwr.

Aeth Mrs Thefaut ymlaen â'r lawdriniaeth. Ar ôl hynny, adroddodd bod ei chefn yn boenus o hyd a bod y boen yn ei choes yn waeth nag yr oedd cyn y lawdriniaeth.

Barnodd yr Uchel Lys fel a ganlyn.

- Roedd y broses o roi caniatâd gwybodus yn is na'r safon ofynnol, oherwydd y cyflwynwyd gwybodaeth i Mrs Thefaut a oedd yn tan-ddatgan y risgiau, yn gorddatgan y siawns o sicrhau llwyddiant, ac nid oedd yn nodi'r dewis o beidio cael llawdriniaeth.
- Dylid rhoi 'amser a lle digonol' i glaf wneud penderfyniadau.
- Mae rôl cynghori meddyg yn cynnwys yr angen i waredu neu leihau jargon gymaint ag y bo modd, fel bod y wybodaeth a roddir i gleifion yn glir a bod modd ei deall.

Ymddiriedolaeth GIG Wye Valley v B [2015] EWCOP 60

Rhoi pwys ar gredoau a gwerthoedd cleifion heb alluedd

Nid oedd B yn meddu ar alluedd i benderfynu ynghylch torri ei goes i ffwrdd. Roedd yn gwrthwynebu'n fawr i'r lawdriniaeth ac roedd wedi bod o'r farn hon am gyfnod estynedig. Barnwyd y byddai peidio cynnal y lawdriniaeth yn arwain at ei farwolaeth cyn pen ychydig ddiwrnodau.

Barnodd y Llys Gwarchod fel a ganlyn.

- Ni fyddai gorfodi llawdriniaeth i dorri'r goes i ffwrdd er budd pennaf B. Pwysleisiodd y llys yr angen i roi pwys cywir i ddymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd cleifion heb alluedd.

Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Coleg Kings vs C [2015] EWCOP 80

Asesu galluedd claf pan fyddant yn gwneud penderfyniad annoeth

Ceisiodd C gyflawni hunanladdiad trwy gymryd tabledi parasetamol gydag alcohol a methodd ei arennau o ganlyniad. Heb dialysis arenol, barnwyd bod marwolaeth C bron yn anochel. Gwrthododd C roi ei ganiatâd i'r driniaeth hon.

Barnodd y Llys Gwarchod fel a ganlyn.

- Mae gan unigolyn sy'n meddu ar alluedd yr hawl i benderfynu derbyn triniaeth feddygol neu beidio. Mae'r hawl i wrthod triniaeth yn ymestyn i wrthod triniaeth a fyddai'n achub bywyd y claf.
- Ni ddylid barnu bod unigolyn heb alluedd i wneud penderfyniad oherwydd eu bod yn gwneud penderfyniad y bernir ei fod yn un annoeth.

Re B (Oedolyn, gwrthod triniaeth feddygol) [2002] 2 All ER 449

Hawl claf sy'n meddu ar alluedd i wrthod triniaeth a fyddai'n estyn eu bywyd

Roedd B wedi yn dioddef parllys pedwarplyg, ac wedi'i pharlysu'n llwyr o'r gwddf i lawr, ac roedd angen cymorth anadlu artiffisial arni er mwyn cynnal ei bywyd. Gofynnodd i'r cymorth anadlu gael ei atal ond gwrthodwyd ei chais gan y meddygon a oedd yn gofalu amdani.

Barnodd yr Uchel Lys fel a ganlyn.

- Mae gan glaf sy'n meddu ar alluedd meddyliol ac y mae ganddynt anabledd corfforol difrifol, yr un hawl i wrthod triniaeth ag sydd gan unrhyw unigolyn arall sy'n meddu ar alluedd. Rhaid parchu eu penderfyniad i wrthod triniaeth, hyd yn oed os yw'n debygol y bydd hyn yn arwain at eu marwolaeth.
- Ni ddylai meddygon ganiatáu dryswch rhwng y cwestiwn ynghylch galluedd meddyliol a chanlyniadau penderfyniad y claf, waeth pa mor ddifrifol yw'r canlyniadau.
- Ni ddylai meddygon ganiatáu i'w hymateb emosïynol i benderfyniad y claf neu'r ffaith eu bod yn anghytuno'n chwyrn gyda phenderfyniad y claf, gymylu eu barn wrth ateb y cwestiwn ynghylch a yw'r claf yn meddu ar y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad.

Re MB (Triniaeth Feddygol) [1997] 38 BMLR 175 CA

Ffactorau y gallent effeithio ar alluedd claf i wrthod triniaeth

Roedd angen toriad cesaraidd ar MB ond tynnodd ei chaniatâd yn ôl ar yr eiliad olaf oherwydd ei ffobia o nodwyddau.

Barnodd y Llys Apêl fel a ganlyn.

- Gallai ffactorau megis ofn, dryswch, sioc, blinder, poen neu gyffuriau effeithio dros dro ar alluedd unigolyn i wneud penderfyniadau penodol. Rhaid i feddygon deimlo'n fodlon bod ffactorau o'r fath yn berthnasol i'r fath raddau fel nad yw'r unigolyn yn gallu gwneud y penderfyniad.

Re C (Oedolyn, gwrthod triniaeth) [1994] 1 All ER 819

Yr egwyddor nad yw salwch meddwl yn golygu yn awtomatig bod claf heb alluedd, a hawl oedolyn cymwys i wrthod triniaeth feddygol

Roedd C yn dioddef o sgitsoffrenia paranoiaidd ac fe'i cadwyd yn ysbyty diogel Broadmoor. Datblygodd madredd yn ei goes ond gwrthododd gytuno i lawdriniaeth i'w thorri i ffwrdd, yr oedd y meddygon o'r farn bod angen gwneud hynny er mwyn achub ei fywyd.

Barnodd yr Uchel Lys fel a ganlyn.

- Nid oedd galluedd yn cael ei amharu gymaint gan y sgitsoffrenia fel nad oedd yn gallu deall natur, diben ac effeithiau'r driniaeth a gynghorwyd. Felly, nid yw'r ffaith bod gan unigolyn salwch meddwl yn golygu yn awtomatig nad ydynt yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniadau am driniaeth feddygol.
- Gall cleifion sy'n meddu ar alluedd wneud eu penderfyniadau eu hunain i wrthod triniaeth, hyd yn oed os bydd y penderfyniadau hynny yn ymddangos yn afresymol i'r meddyg neu y gallent fod yn peryglu iechyd neu fywyd y claf.